GIG CYMRU NHS WALES | Profi Olrhain Diogelu | Test Trace Protect

NHS Test and Trace

Cyflwyniad i godau QR – i Fusnesau

Ap COVID-19 y GIG

Esbonio'r posteri QR i fusnesau

Gydag ap COVID-19 y Gwasanaeth Iechyd gall cwsmeriaid gofnodi i mewn i lefydd gan ddefnyddio sganiwr QR. Mae'n ffordd syml a diogel i gofnodi lle mae pobl wedi bod.

Bydd defnyddwyr yr ap yn sganio poster QR y Gwasanaeth Iechyd wrth gyrraedd lleoliad. Yna, bydd yr ap yn anfon cyngor iechyd cyhoeddus atynt os ydynt wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Fydd y neges ddim yn rhoi enw'r lleoliad.

I greu poster QR i'ch lleoliad busnes chi, ewch i gov.uk/create-coronavirus-qr-poster. Mae'n hawdd a chyflym a gallwch greu faint fynnoch o bosteri.

Dylech osod y posteri mewn llefydd hawdd eu gweld, ger y drws neu mewn llefydd eraill cyfleus.

Dylai'r busnesau sydd eisoes yn cadw cofnod o gwsmeriaid arddangos y posteri hyn hefyd. Er enghraifft

- Busnesau lletygarwch
- Twristiaeth a hamdden
- Gwasanaethau cysylltiad agos
- Awdurdodau lleol

Yng Nghymru, rhaid i fusnesau â risg uchel ddal ati i gasglu manylion staff a chwsmeriaid, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio'r ap.

Yn Lloegr, mae angen dull arall o gadw cofnod ar gyfer pobl sydd heb yr ap.

Diogelu ein gilydd.

Gosodwch eich poster QR Gwasnaeth Iechyd lan, i roi tawelwch meddwl i'ch staff a helpu'ch cwsmeriaid i ddiogelu ei gilydd.

Ewch i gov.uk/create-coronavirus-qu-poster i greu eich poster chi heddiw.

Roedd yr holl wybodaeth a delweddau yn y ddogfen hon yn gywir ar 24 Medi 2020. I gael rhagor o wybodaeth am Ap COVID-19 y GIG, ewch i www.covid19.nhs.uk